Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynconin
# Llandysilio
# Clunderwen
# Sir Benfro
# SA66 7TF

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynconin

Mae Ysgol Gynradd Brynconin ym mhentref Llandisilio yn Awdurdod Lleol Sir Benfro. Mae 79 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 7 oed meithrin sy'n rhan-amser.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Tua 22% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndiroedd ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 25% o'i disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2011. Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Medi 2016, ac mae'n arwain yr ysgol ar y cyd ag ysgol arall.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn gweithio’n effeithiol gyda’r staff a’r corff llywodraethol. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith tîm buddiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd ddysgu'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus mewn amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau ar draws y cwricwlwm a gwyddant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae’r amgylchedd teuluol a chynhwysol yn cyfrannu’n effeithiol at ymdeimlad y disgyblion o falchder yn eu gwaith a’u bod yn perthyn i’r ysgol. Mae’r berthynas waith sy’n bodoli rhwng y disgyblion a’r staff yn effeithiol ac wedi ei seilio’n gadarn ar barch. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ran fwyaf y disgyblion ddysgu yn fwyfwy annibynnol. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion ac mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn darparu cefnogaeth lwyddiannus iddynt.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyflymder gweithgareddau yn cynnal diddordeb yr holl disgyblion

A2 Sicrhau bod gweithgareddau yn gosod her briodol i alluogi'r holl ddisgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Ysgol Gynradd Brynconin yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill ac yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus â'i gilydd, er enghraifft am bwysigrwydd ailgylchu pecynnau creision. Maent yn awyddus i gynnig atebion a sylwadau ac maent yn mynegi barn yn fedrus wrth siarad am eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith Gymraeg, ac mae'r mwyafrif yn frwdfrydig i'w defnyddio yn y gwersi ac wrth gymdeithasu amser chwarae. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall, er enghraifft wrth drafod effaith twristiaid yn Sir Benfro.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb mewn amrywiaeth dda o lyfrau ac yn mwynhau darllen ar goedd, gan wneud hyn yn gynyddol hyderus. Maent yn adnabod nodweddion llyfrau yn effeithiol ac yn trafod testunau yn fedrus, er enghraifft am fôr-ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a gyda chywirdeb yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn hyderus ac yn trafod eu hoffter am wahanol awduron, gan egluro pam y maent yn apelio atynt. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn cywain gwybodaeth i gof a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i drychineb y Sea Empress.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol yn y cyfnod sylfaen. Maent yn hyderus i ffurfio llythrennau a geiriau syml trwy amrywiaeth effeithiol o weithgareddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am Sali a Sami Sgrap a phortread o Betsi Cadwaladr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno eu syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith yn unol â'u hoed a'u gallu. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n greadigol mewn ystod o ffurfiau diddorol, er enghraifft dyddiadur Earnest Shackleton. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn fedrus, er enghraifft wrth werthuso'r pellter mae parasiwt yn teithio o wahanol uchder.

Yn y cyfnod sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn hyderus yn trafod bondiau rhif ac yn trin arian yn llwyddiannus wrth brynu nwyddau yn y siop gan ddefnyddio darnau penodol o arian. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio unedau ansafonol yn hyderus, gyda'r mwyafrif yn darllen graddfeydd safonol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth fesur dail yn yr ardd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn effeithiol. Maent yn datblygu eu strategaethau rhif yn gadarn ac yn datrys problemau mathemategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod y berthynas rhwng canrannau, degolion a ffracsiynau. Maent, ar y cyfan, yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn addas mewn gweithgareddau priodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 graffu ar amserlenni trenau o Lundain i wahanol ddinasoedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn rhaglennu robotiaid bach er mwyn trefnu cyfeiriad a phellter yn effeithiol. Maent yn hyderus i ddefnyddio llechen electronig er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bwrpasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol hyderus wrth ddefnyddio amrediad gwerthfawr o offer a meddalwedd. Er enghraifft, maent yn defnyddio pecynnau bas data yn hyderus er mwyn dehongli gwybodaeth am greaduriaid y môr. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus i wneud dewisiadau am y dull mwyaf effeithiol o gyflwyno eu gwaith. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y maent yn cyflwyno gwybodaeth am y planedau yn fedrus gan ddefnyddio testunau a delweddau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn sensitif i anghenion eraill, gyda llawer o'r disgyblion hŷn yn gofalu am rai iau mewn ffordd garedig a chynhaliol. Mae hyn oll yn cyfrannu'n llwyddiannus at natur deuluol ac awyrgylch ofalgar yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn defnyddio'r blwch becso i rannu pryderon pan fo angen. Mae hyn yn atgyfnerthu eu sicrwydd bod oedolion yn ymateb yn amserol i'w gofidiau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n aeddfed fel unigolion, ac mewn parau a grwpiau. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith ac yn dyfalbarhau'n effeithiol am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Maent yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol wrth ymateb i weithgareddau ymestynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer gwastraff i greu model o'r lle glan-y-môr delfrydol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn cyfrannu syniadau a chwestiynau creadigol ar gyfer gweithgareddau sydd ynghlwm â thema'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i wella eu gwaith ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu llwyddiant mewn tasgau.

Mae'r gwahanol bwyllgorau yn fforymau effeithiol i roi llais amlwg i ddisgyblion ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a'u lles yn gyffredinol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu dyletswyddau ar y pwyllgorau o ddifrif. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn gwneud penderfyniadau dros eraill yn eglur a rhesymegol mewn gwasanaethau boreol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco yn codi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn effeithiol wrth blannu blodau i ddenu'r pili pala. Maent yn monitro'r dosbarthiadau yn wythnosol i wirio a yw'r goleuadau a'r tapiau dŵr wedi eu diffodd a beth yw cynnwys y biniau sbwriel. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn tyfu a gwerthu planhigion a llysiau yn eu rhandir, gan ddatblygu medrau mentergarwch a hybu bwyta'n iach yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn dewis elusen i'w chefnogi yn dymhorol ac yn cynnal gweithgareddau amrywiol i godi arian iddynt. Er enghraifft, maent wedi codi arian i brynu gwisg ysgol i blant mewn ysgol yn Kenya. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion eraill o fewn y gymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed. Mae'r siop ffrwythau ddyddiol yn cefnogi'r disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u diet. Mae bron pob un disgybl yn cadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff rheolaidd. Yn ogystal, maent yn defnyddio eu medrau corfforol yn llwyddiannus mewn gweithgareddau allgyrsiol fel pêl-droed, dawns a gymnasteg. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynnal lefelau cyson o ffitrwydd.

Mae ymwybyddiaeth gadarn gan ran fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we. Mae'r arweinwyr digidol yn rhannu gwybodaeth am hyn yn llwyddiannus gyda'u cyfoedion trwy siarad â nhw a thrwy greu a dosbarthu pamffled gwybodaeth defnyddiol iddynt.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl staff berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion. Maent yn sensitif i'w hanghenion, yn gwarchod eu lles ac yn eu hannog i ddatblygu eu hyder yn llwyddiannus. Mae staff yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi.

Mae'r athrawon yn gosod amcanion dysgu clir i'r disgyblion ac yn defnyddio ystod o adnoddau perthnasol i ennyn eu diddordeb. Maent yn gosod tasgau diddorol iddynt, sy'n eu galluogi i ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol yn effeithiol i geisio datrys problemau, er enghraifft wrth i ddisgyblion hŷn gynllunio a chyfrifo cost taith i Iwerddon. Mae athrawon yn defnyddio technegau holi'n bwrpasol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau newydd ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol. Mae'r staff cymorth yn cefnogi disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i ymroi i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn sicrhau bod cyflymder effeithiol i'r gwersi, gyda rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau am gyfnodau perthnasol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw cyflymder gweithgareddau yn cynnal diddordeb ychydig o'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Darperir cyfleodd rheolaidd gan staff i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod beth maent wedi ei wneud yn dda ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ymhellach. Mae adborth yr athrawon yn canolbwyntio'n dda ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn dangos dyfalbarhad effeithiol i wella agweddau penodol ar eu gwaith yn annibynnol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n effeithiol, gyda'r disgyblion yn dewis heriau i'w cyflawni'n annibynnol, er enghraifft wrth greu llong allan o wahanol adnoddau i'r môr leidr. Mae'r athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth barhaus yn briodol er mwyn cynnig gwahanol weithgareddau sy'n annog annibyniaeth a chydweithio ymysg y disgyblion o oed cynnar. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion yn yr ardal allanol er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt chwarae rôl yn ardal Parti Barti. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cwblhau gweithgareddau annibynnol yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Er enghraifft, maent yn datblygu eu creadigrwydd yn effeithiol wrth greu offerynnau taro er mwyn cynhyrchu sain gyda thraw gwahanol.

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang a diddorol o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r medrau i'w datblygu wedi eu trefnu'n effeithiol dros gyfnodau penodol. Er bod yr ysgol, ar y cyfan, yn darparu'n briodol i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion ar draws yr ysgol, nid yw ychydig o weithgareddau yn herio'r lleiafrif i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r staff wedi dechrau cynllunio'n briodol yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddechrau rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddewis yr hyn maent am ei ddysgu a'r gwahanol ffyrdd y maent am gyflwyno gwybodaeth. Mae nifer o gyfleoedd effeithiol iddynt ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am blanedau gan ysgrifennu'n greadigol am Newyddion Fenws mewn adroddiad papur newydd.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyffrous i'r disgyblion ddysgu am hanes a thraddodiadau Cymru. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn dysgu am hanes Barti Ddu ac yn ysgrifennu neges mewn potel tra bod eu cyd-ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu barddoniaeth am Gantre'r Gwaelod. Dethlir dyddiadau Cymreig penodol trwy gydol y flwyddyn er mwyn annog pob disgybl i fod yn falch o siarad Cymraeg ac o berthyn i Gymru, er enghraifft trwy ddathlu diwrnod y bardd Waldo.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad gan ddisgyblion. Mae pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ac ar hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a thegwch. Rhoddir pwyslais effeithiol ar sicrhau gofal a chymorth i bob unigolyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.

Mae gweithdrefnau olrhain cynnydd wedi eu mireinio'n effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau'r disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn bwrpasol ac yn cael effaith gadarn ar eu cynnydd.

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol pwrpasol a phroffil un dudalen cynhwysfawr. Mae'r athrawon yn adolygu'r cynlluniau hyn yn drwyadl ac effeithiol mewn cydweithrediad â'r disgyblion a'u rhieni. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau priodol i symud y disgyblion ymlaen yn eu dysgu yn fedrus. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel therapydd lleferydd, seicolegydd addysg, tîm cefnogi ymddygiad a'r heddlu, sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad priodol i staff. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae perthynas bwrpasol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cyfle i'r rhieni chwarae rhan berthnasol ym mywyd yr ysgol ac i gefnogi addysg eu plant yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ofalgar gan y disgyblion a'u rhieni, sy'n deillio o barodrwydd staff i weithredu polisi drws agored ar bob achlysur. Er enghraifft, mae'r ysgol yn croesawu rhieni i'r ysgol i roi cefnogaeth i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau darllen a garddio.

Mae gan yr ysgol drefniadau cryf i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i annog disgyblion i gadw'n heini. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn annog disgyblion i ddod â byrbryd iach ar gyfer egwyl y bore. Mae'r ysgol yn darparu gwersi chwaraeon wythnosol fel athletau, pêl-rwyd a gwersi nofio i ddisgyblion, sy'n cael effaith fuddiol ar eu dealltwriaeth o sut i gynnal bywydau iachus. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyfartal pwrpasol i ddatblygu eu medrau addysgol, corfforol a chreadigol. Er enghraifft, mae cenhadon addysg gorfforol yn cael hyfforddiant gan swyddog chwaraeon er mwyn hybu gweithgareddau cadw'n heini amser chwarae. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau buddiol i ddatblygu dealltwriaeth addysg bersonol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft peryglon camddefnyddio sylweddau a sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae gwasanaethau a gweithredoedd o addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ystyried gwerthoedd yr ysgol, yn ogystal â chyfleoedd buddiol i fyfyrio am themâu cyfoes fel gofalu am yr amgylchedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol disgyblion yn effeithiol, gyda staff yn ymuno â nhw ac aelodau o'r gymuned i godi symiau sylweddol o arian at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o gyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddysgu am eu treftadaeth, er enghraifft wrth gymryd rhan yn llwyddiannus mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft y Cwis Dim Clem sy'n canolbwyntio ar wybodaeth gyfoes am Gymru.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei seilio ar ddatblygu lles disgyblion ac ar gynnal a chodi safonau cyflawniad. Mae holl gymuned yr ysgol yn hyrwyddo'r weledigaeth hon yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar.

Mae'r pennaeth yn craffu ar wybodaeth am gynnydd disgyblion ac yn rhoi arweiniad clir ynglŷn ag agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r athrawes arweiniol yn ysgwyddo ei chyfrifoldebau yn gydwybodol, ac yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'w chydweithwyr. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda o berfformiad cyfredol yr ysgol, sydd wedi arwain at ddatblygu'r ddarpariaeth yn llwyddiannus er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mae'r pennaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o rannu arfer dda ac arbenigedd staff yn effeithiol gydag ysgolion eraill yn lleol. Mae hyn wedi datblygu medrau penodol aelodau staff yn llwyddiannus, sydd, yn ei dro, wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu elfennau o wyddoniaeth fel cynnal ymchwiliadau yn systematig. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion gwell ddealltwriaeth bellach o bwysigrwydd prawf teg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddgar iawn i'r ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r pennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus.

Gyda'i gilydd, maent wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol sydd wedi eu galluogi i ddatblygu adnabyddiaeth gwirioneddol drylwyr o'r ysgol. Maent yn craffu ar ddata perfformiad er mwyn asesu patrymau mewn cynnydd dros amser. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn craffu ar waith disgyblion ac yn trafod gyda staff er mwyn adnabod cynnydd mewn meysydd penodol. O ganlyniad, mae rôl aelodau'r corff llywodraethol fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol yn datblygu'n gadarn.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol wedi eu sefydlu'n bwrpasol ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae cylch effeithiol o graffu ar berfformiad a gwerthuso'r ddarpariaeth yn galluogi arweinwyr i adnabod nifer briodol o flaenoriaethau gwella. Mae agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn cael eu trefnu'n gynllun datblygu manwl. Mae'r cynllun hwn wedi ei rannu'n weithgareddau pwrpasol sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd er mwyn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau. Mae cynnydd yn cael ei werthuso'n fanwl a rheolaidd yn unol â'r meini prawf penodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau cyflawniad ac ar hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Mae cyllid yn cael ei dargedu'n briodol at wahanol flaenoriaethau yn ôl y galw. Mae gwahanol aelodau staff yn gyfrifol am gynnydd y cynllun, sy'n adeiladu cynhwysedd yr ysgol i barhau i ddatblygu ei darpariaeth. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at ei blaenoriaethau.

Mae'r pennaeth yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau dysgu proffesiynol staff. Mae'n hyrwyddo cydweithio a rhannu arbenigedd yn fewnol a chydag ysgolion eraill o fewn y dalgylch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder athrawon mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm ynghyd â'u cynorthwyo i ymateb yn briodol i anghenion y cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff, ac amrediad effeithiol o adnoddau. Mae'r adeilad o safon dda ac mae'n cael ei ddefnyddio'n greadigol gan yr athrawon a'r staff cymorth er mwyn hyrwyddo dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyllid yr ysgol yn cael ei reoli'n fwriadus gan y pennaeth, arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio'n agos gyda swyddogion cyllid yr awdurdod lleol er mwyn pennu anghenion gwariant ac adnabod heriau ariannol. Mae cyllid grantiau fel y grant gwella addysg a'r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddyrannu'n bwrpasol i gefnogi disgyblion penodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2019